**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Andrew Slade,
Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

03 Rhagfyr 2024

Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru

Annwyl Andrew,

Ymhellach i chi rannu yr adolygiad clo ac ymatebion cynharach i gwestiynau a godwyd yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth ar y pwnc hwn, mae'r Pwyllgor yn bwriadu dod â'i ddiddordeb yn y mater hwn i ben a bydd yn cyflwyno adroddiad ar y dystiolaeth a gafodd maes o law.

Cyn hynny, byddem yn hoffi cael diweddariad cyffredinol ar ddatblygiadau gyda'r Gronfa, wrth inni geisio darparu crynodeb byr o drafodion y Gronfa. Mae ein ceisiadau penodol am ddiweddariadau wedi'u nodi yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Byddai'r tîm clercio, gyda chefnogaeth staff Archwilio Cymru, yn hapus i gwrdd â swyddogion i drafod cyd-destun y ceisiadau hyn ac unrhyw faterion o ran dehongli y gallai fod angen eu datrys cyn i chi ymateb.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 16 Ionawr 2025.

Yn gywir

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

## Sefyllfa ddiweddaraf a datblygiadau

- A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r Gronfa (gan nodi bod Tŷ'r Cwmnïau yn parhau i ddangos ei bod yn gronfa 'weithredol'), am asedau gweddilliol y Gronfa, gan gynnwys prisiad cyfredol unrhyw asedau a gaiff eu dal gan Fanc Datblygu Cymru (BDC) ar hyn o bryd.

## Crynodeb o drafodion y Gronfa

- A allwch ddarparu crynodeb manwl, fesul blwyddyn, o ffioedd/ad-daliadau a dalwyd i reolwr y gronfa/Arix (fel partner/buddsoddwr cyfyngedig) drwy gydol cyfnod y Gronfa. Yn ogystal, nodwch sut y cyfrifwyd y ffioedd hyn, a diben unrhyw ad-daliadau.
- A allwch ddarparu crynodeb manwl o'r holl ddihatradau (naill ai drwy werthu buddsoddiadau neu drwy ddilëiadau ar gyfer cwmnïau a ddaeth i ben) drwy gydol cyfnod y Gronfa.
- A allwch ddarparu crynodeb manwl o'r holl drafodion eraill na roddwyd cyfrif amdanynt mewn tystiolaeth flaenorol, fel ffioedd archwilio, costau broceriaeth, benthyciadau ac ati.
- I gefnogi'r ymateb uchod ynghylch ffioedd, byddem yn hoffi gweld canfyddiadau'r adolygiad manwl o ffioedd y dywed yr adroddiad clo a gynhaliwyd yn 2023, neu grynodeb ohono o leiaf.

## Cefnogaeth i fusnes y buddsoddwyd ynddo

- Gwnaethom godi cwestiwn yn flaenorol ynghylch a oedd unrhyw symiau a oedd yn gysylltiedig â'r ffigur 'cyd-fuddsoddi ar lefel bargen' o £273 miliwn yn cynnwys unrhyw arian o'r pwrs cyhoeddus y tu hwnt i fuddsoddiad y Gronfa ei hun. Gofynnwyd hefyd a oedd unrhyw fuddsoddiad cyhoeddus uniongyrchol arall neu gymorth grant ehangach yn unrhyw un o'r cwmnïau y buddsoddwyd ynddynt gan y Gronfa, ond y tu allan i'r Gronfa ei hun. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu o hyd gael cadarnhad am unrhyw gymorth cyllid cyhoeddus y mae'r cwmnïau amrywiol y buddsoddwyd ynddynt gan y Gronfa yn ei gael gan Lywodraeth Cymru neu Gyllid Cymru/Banc Datblygu Cymru (ym mha bynnag ffurf) yn ystod oes y Gronfa ond y tu allan i drefniadau'r Gronfa ei hun (h.y. fel rhan o raglenni cymorth eraill).

## Materion eraill

- Pan glywsom dystiolaeth lafar, clywsom fod Banc Datblygu Cymru yn cynllunio gwerthusiad o'r Gronfa a'i fod yn bwriadu cwblhau hyn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023-24. Ers hynny rydych wedi darparu copi o'r adroddiad clo. Fodd bynnag, mae rhai o'r dyddiadau yn y ddogfen hon yn awgrymu ei bod wedi'i llunio, i raddau helaeth, cyn ein sesiwn dystiolaeth, a'i bod i fod i gael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Medi 2023 (er ei bod hefyd yn cyfeirio at ei chyflwyno erbyn diwedd mis Hydref 2023). Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau amseriad yr adroddiad clo ar yr adolygiad, a'i gymeradwyo, ac a oedd unrhyw fwriad erioed i lunio unrhyw adroddiad gwerthuso ar wahân neu ehangach ai peidio.
- Rydym yn nodi bod yr adolygiad clo yn dweud mai cyfrifoldeb Banc Datblygu Cymru yw talu adenillion terfynol y Gronfa i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd cyfnod gwireddu'r buddsoddiadau sy'n weddill ar ddyddiad i'w gytuno gan Fanc Datblygu Cymru a

Llywodraeth Cymru, nad yw’n hwyrach na 31 Mawrth 2025. Mae hefyd yn nodi y bydd Banc Datblygu Cymru yn cynnal adolygiad ar ddiwedd y gwireddu ar yr adeg honno. Hoffem gael diweddariad ar y trefniadau hyn a throsolwg o’r hyn y byddai’r adolygiad ar ddiwedd y gwireddu yn ei gynnwys yng nghyd-destun rhai o’n ceisiadau uchod, fel y gallwn ddeall pa mor berthnasol y gall fod i gynnwys ac amseriad unrhyw adroddiadau gan y Pwyllgor ar ganlyniadau’r Gronfa.